

Cyngor Cymuned Llanpumsaint Community Council

Cofnodion Mis Hydref

Cynhaliwyd y cyfarfod misol yn y Neuadd Goffa ar Nos Fawrth 2ail o Hydref 2012 am 8.00 yh. Yn bresennol y Cynghorwyr; Wyn Thomas, Danny Davies, Malcolm Howells, Dylan Jones, Mali Lloyd, Carolyn Smethurst a'r Cynghorwr Sir, Irfon Jones.

Ymddiheuriadau

Arwel Nicholas, Elfed Davies

Materion yn codi

- Ty Beric, Ty Nant a gweddill materion yr heolydd; Mr McEvoy a'r Cynghorydd Irfon Jones yn dod i'r Pentref Ddydd Mercher y 3ydd Hydref i drafod y gwaith sydd angen ei wneud.
- Tai bach ar glo. Y Rheolwr, Rhys Davies wedi esbonio fod oriau'r Gofalwr wedi eu cwtdogi, felly mi fydd y cyfleusterau ar gau am hwy o amser. Wrth drafod y posibilrwydd o'r Gymuned yn cymeryd gofal am y tai bach dros y penwythnos, codwyd mater o yswiriant ac efallai agor dau ty bach yn unig. Angen ymchwil i'r opsiynau.
- Ymaelodaeth SLCC – y Clerc wedi ymaelodi. Y Cyngor i ystyried aelodaeth o Un Llais Cymru; efallai fyddde cyrsiau hyfforddi i'r Clerc yn rhatach.
- Awydd symyd ymlaen gyda'r arwyddion atal cyflymdra, a thrafod gyda'r Awdurdodau awgrym y Cyngor i greu ardal o gyflymdra 20 mya o waelod Rhiw Llandre hyd cyffordd y Ficerdy.
- Trafodir cyfrannu at Elusennau yn y cyfarfod nesaf. Angen i'r Clerc rhestru'r ceisiadau.
- Trafndiaeth ar hyd heol y Felin tuag at Skanda Vale; angen trefnu cyfarfod gyda Mr Mike Jacob sydd a chyfrifoldeb rheolaeth trafndiaeth, a chydweithiwr iddo, Mr Simon Charles, Swyddog Gwella Diogelwch Ffyrdd.

Gohebiaeth

- Ceisiadu am gyfraniadau ariannol oddi wrth: Clybiau Ffermwyr Ifanc a Mari Curie
- Cwmni o'r enw Ynnida yn cynnig gwneud arolwg yn y Pentref o ddymuniadau'r pentrefwyr wrth ystyried gwella adnoddau'r Gymuned.
- Esboniad oddi wrth Swyddfa'r Bost paham ni ddaeth y Swyddfa Symudol i'r Pentref. Roedd y Van wedi bod mewn damwain.
- Gwrthod cais Cynllunio Caeau Pennant, Rhydargaeau
- Gwybodaeth ariannol o'r Banc

Cynllunio

Dim

Materion Ariannol

Dim wedi ei dderbyn

Taliadau

- Delyth Charles, Cyfieithu
- BDO, Cyfrifyddion yr Arolwg

Unrhyw Fusnes Arall

- Goleuni ar bwys Bont Penbontbren methu a thywynnu oherwydd gor dyfiant coed.
- Angen pyst adlewyrchu ar ymyl y ffordd gyferbyn a Ferm y Felin; tir meddal allai fod yn beryglus i gerbydau.
- Dŵr yn llifo ar draws yr heol gerllaw Fferm y Bryn ac yn golchi cerrig, graean a phridd oddi ar y llwybyr i fyny'r caeau sydd wedyn yn pentyrru ar yr heol.
- Dŵr yn llifo i'r heol sy'n arwain lawr i bentref Bronwydd. Cyngorydd Jones yn cysylltu gyda adran Priffyrdd.
- Baw cŵn. Cyngorydd Jones yn cyfarfod â Swyddog o'r Cyngor. Angen gwybodaeth am y lleoliadau.
- Carthffosiaeth yn gorlifo i'r cae gerllaw Bont Newydd. Huw Davies, Min y Ffordd, wedi cofnodi yr achlysuron a thynnu lluniau. Angen cysylltu gyda Dŵr Cymru.
- Dŵr mawr yn creu perygl ar yr heol gerllaw Gilfach Fach
- Angen rheoli'r dŵr sy'n llifo lawr heol Maenllwyd cyn i'r tywydd droi yn oer.

I'w drafod yn y cyfarfod nesaf:

- Cynllun Gweithredu Cymunedol; tudalen 30 yn Llawlyfr Canllaw y Cyngorydd Da 2012